estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# **Gwaith ymgysylltu:** Diweddariad am y sector uwchradd – hydref 2020

Rhagfyr 2020



# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector uwchradd – hydref 2020

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'r galwadau ffôn ymgysylltu a wnaed i 114 o ysgolion uwchradd rhwng diwedd mis Medi a rhan olaf mis Hydref 2020. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr, yn ogystal â chanfyddiadau o arolygon rhanddeiliaid. Y prif ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles disgyblion, staff ac uwch arweinwyr a naill ai sut roedd ysgolion yn hyrwyddo dysgu neu'n darparu cymorth ar gyfer eu dysgwyr bregus. Mae'r cyfrannau'n cyfeirio at y sampl o ysgolion yr ydym wedi bod mewn cysylltiad â nhw.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei lywio gan dystiolaeth o'r ffynonellau canlynol:

- Cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid ac/neu uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am feysydd penodol
- Canfyddiadau o arolygon i ddisgyblion, rhieni, llywodraethwyr, arweinwyr ysgol, athrawon a staff cymorth

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

## Cynnwys


**Prif ganfyddiadau ... 1**
- Lles disgyblion, staff a phenaethiaid ... 1
- Hyrwyddo dysgu ... 1
- Cefnogi dysgwyr bregus ... 2

**Canfyddiadau manwl ... 3**
- Lles disgyblion, staff a phenaethiaid ... 3
- Hyrwyddo dysgu ... 5
- Cefnogi dysgwyr bregus ... 13

## Prif ganfyddiadau

### Lles disgyblion, staff a phenaethiaid

Mae bron pob ysgol yn adrodd bod disgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol. Maent wedi addasu'n dda i drefniadau newydd ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i weld eu ffrindiau ac athrawon. Mae llawer o ysgolion yn arbennig o bryderus ynglŷn â disgyblion presennol Blwyddyn 11 sy'n pryderu am yr ansicrwydd ynghylch arholiadau.

Mae bron pob arweinydd yn teimlo bod y pandemig wedi cryfhau'r ymdeimlad o gymuned o fewn eu hysgol a bod gwaith tîm y staff a'u parodrwydd i addasu wedi bod yn gryfderau arbennig. Mae bron pob ysgol wedi darparu cymorth ar gyfer lles staff, er bod arweinwyr yn bryderus iawn ynglŷn â lles eu staff, o ran cynaliadwyedd y trefniadau presennol a'r effaith hirdymor.

Mae nifer o ffactorau wedi effeithio'n negyddol ar les penaethiaid ac uwch arweinwyr. Mae'r rhain yn cynnwys ymateb i gyfarwyddiadau sy'n newid, pryder ynghylch lles cymuned yr ysgol a'r llwyth gwaith ychwanegol a achosir gan faterion gweithredol. Mae penaethiaid yn gwerthfawrogi'r cymorth gan benaethiaid eraill ond nid ydynt wedi cael fawr o seibiant ers dechrau'r pandemig.

### Hyrwyddo dysgu

Ymatebodd bron yr holl ysgolion yn gyflym i ddarparu dysgu o bell i ddisgyblion yn ystod y cyfnod clo, ac fe wnaeth y rhan fwyaf addasu'u darpariaeth dysgu proffesiynol yn gyflym i ganolbwyntio'n fanylach ar ddatblygu medrau digidol ymarferwyr. Teimla'r rhan fwyaf o arweinwyr fod eu darpariaeth ar gyfer dysgu o bell wedi gwella wrth i hyder athrawon wrth ddefnyddio llwyfannau digidol gynyddu.

Amrywiol oedd ymgysylltiad disgyblion yn ystod y cyfnod clo. Yn benodol, ymgysylltiad disgyblion presennol Blwyddyn 11 oedd wannaf. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn pryderu nad yw'r medrau TGCh sylfaenol sydd eu hangen i ymgysylltu â dysgu digidol ac i wneud cynnydd effeithiol o bell gan ddisgyblion. Roedd hwn yn un o nifer o ffactorau a effeithiodd ar lefelau ymgysylltu yn ystod tymor yr haf. I ymateb i hynny, ers mis Medi, mae llawer o ysgolion yn darparu mwy o gyfleoedd i'w disgyblion ymarfer y medrau hyn yn ystod addysgu wyneb yn wyneb. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn canolbwyntio ar fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion gan eu bod wedi nodi bod y rhain, yn gyffredinol, wedi dirywio.

Bu'r rhan fwyaf o ysgolion yn monitro ymgysylltiad yn ystod y cyfnod clo drwy ystyried arferion mewngofnodi a lawrlwytho disgyblion. Defnyddiodd llawer o ysgolion arolygon rhieni a disgyblion i gefnogi hyn. Datblygodd ychydig o ysgolion ddulliau i fonitro ansawdd y gwaith a oedd yn cael ei osod.

Mae arweinwyr yn gorfod addasu'u darpariaeth yn unol â chanllawiau COVID-19. Mae hyn yn cyflwyno nifer o heriau. Yn benodol, maent yn addasu dulliau o addysgu wyneb yn wyneb ac asesu yn unol â chanllawiau'n ymwneud â chadw pellter cymdeithasol, yn datblygu dulliau ar gyfer dysgu o bell i baratoi ar gyfer unrhyw darfu pellach ac yn treialu dulliau i ffrydio gwersi'n fyw er mwyn cynyddu ymgysylltiad ag unrhyw ddysgu o bell. Yn sgil yr angen i arweinwyr ymateb yn rheolaidd i ganllawiau

gweithredol COVID-19, mae arweinwyr yn adrodd bod llai o amser ganddynt i feddwl ac i gynllunio'n strategol.

Mae'r sefyllfa bresennol lle mae disgyblion naill ai yn yr ysgol neu gartref yn golygu bod y rhan fwyaf o ysgolion naill ai'n darparu dysgu wyneb yn wyneb neu ddysgu o bell. Mae ysgolion yn dechrau archwilio dulliau dysgu cyfunol fel mae'r sefyllfa hon yn newid.

Mae'r holl arweinwyr ysgolion uwchradd yn pryderu ynglŷn â'r ansicrwydd mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer arholiadau yn 2021. Yn benodol, mae ganddynt bryderon ynglŷn â'r pynciau hynny sy'n cynnwys elfennau ymarferol a'r amrywio o ran tarfu o ysgol i ysgol. Mae ychydig o bynciau yn gweld gweithio gyda'r cyfyngiadau COVID-19 yn heriol, yn enwedig wrth gynllunio a darparu cyfleoedd ar gyfer gwaith ymarferol.

Mae ysgolion dwyieithog neu ysgolion Cymraeg yn arbennig o bryderus fod gallu a hyder disgyblion i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi dirywio. Mae hyn oherwydd bod disgyblion wedi cael llai o gyfleoedd nag y byddent yn eu cael fel arfer i ymarfer ysgrifennu a sgwrsio yn y Gymraeg.

## Cefnogi dysgwyr bregus[i]

Mae ysgolion wedi blaenoriaethu lles disgyblion ac wedi ystyried sut yr effeithir ar ddysgwyr bregus yn benodol gan y pandemig, a sut gallant eu cefnogi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion bregus wedi croesawu dychwelyd i'r ysgol, a'r strwythur a'r drefn bob dydd. Mae lleiafrif wedi gweld yr ailintegreiddio yn heriol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu cymorth parhaus i deuluoedd disgyblion bregus ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar sut mae'r teuluoedd hyn yn ymgysylltu â'r ysgol. Wrth baratoi ar gyfer disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, darparodd llawer o ysgolion ganllawiau clir i rieni a disgyblion ynglŷn ag agweddau iechyd a diogelwch. Darparodd ychydig o ysgolion gyfleoedd i ddisgyblion bregus a'u rhieni i ymweld â'r safle.

Mae ysgolion yn adrodd bod y bylchau mewn dysgu yn fwy yn gyffredinol ar gyfer disgyblion bregus. Yn benodol, mae eu medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn wannach nag o'r blaen. Mae ysgolion yn adrodd bod y diffyg gweithgareddau yn gysylltiedig â chreadigrwydd a gwaith ymarferol wedi cael effaith niweidiol ar ymgysylltiad dysgwyr bregus yn arbennig.

Amrywiol yw'r ddarpariaeth cyrsiau cwricwlwm amgen ar gyfer dysgwyr bregus. Nid yw nifer fawr o gyrsiau allanol ymarferol wedi gallu cael eu cynnal ac mae hyn wedi arwain at ychydig o ddisgyblion yn arddangos ymddygiad heriol neu'n ymddieithrio.

Ar y cyfan, mae ysgolion, awdurdodau lleol a gwasanaethau arbenigol wedi gweithio'n dda â'i gilydd i barhau â'u cymorth ar gyfer disgyblion bregus. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi arwain at anawsterau o ran cyflwyno rhai o'r gwasanaethau hyn. Mae cymorth gan wasanaeth yr heddlu a'r gwasanaethau ieuenctid wedi cael ei werthfawrogi'n arbennig gan bron pob ysgol. Mae llawer o ysgolion yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer staff allweddol sy'n cefnogi dysgwyr bregus.

Bu cynnydd yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl, iechyd cyffredinol a chwnsela. At ei gilydd, mae atgyfeiriadau o ysgolion at wasanaethau arbenigol wedi cynyddu ac mae ysgolion yn pryderu’n gynyddol fod mwy o ddisgyblion yn methu cael asesiad arbenigol neu gymorth.

Yn gyffredinol, fe wnaeth ysgolion elwa o weithio gydag ysgolion eraill a swyddogion awdurdod lleol i rannu adnoddau, trafod materion a datrys problemau er mwyn bodloni dyletswyddau statudol.

Mae bron yr holl ysgolion yn adrodd bod trefniadau i barhau â phrosesau asesu statudol ar gyfer datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) wedi parhau ers mis Mawrth. Mae ysgolion wedi parhau i gynnal adolygiadau blynyddol, gan wneud addasiadau, lle bo angen. Erbyn hyn, mae ysgolion yn dechrau cynyddu lefel y cymorth i ddisgyblion ag AAA drwy ymyriadau yn yr ysgol. Mae’r llwyth gwaith gweithredol a achoswyd gan y pandemig wedi arafu cynnydd tuag at y cynllunio ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg [Cymru].

## Canfyddiadau manwl

### Lles disgyblion, staff a phenaethiaid

#### Lles disgyblion

Mae bron pob ysgol yn adrodd bod disgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol ac, ar y cyfan, maent wedi addasu’n dda i’r trefniadau newydd. Maent yn gwerthfawrogi’r strwythur a’r drefn a ddarperir gan yr ysgol a’r cyfle i weld eu ffrindiau ac athrawon. Fodd bynnag, mae ysgolion yn pryderu ynghylch effaith hirdymor y cyfnod clo ar grwpiau penodol o ddisgyblion, fel y rhai sydd â bywydau cartref anhrefnus a diffyg cefnogaeth gartref.

Mae llawer o ysgolion yn adrodd bod ymddygiad disgyblion yn well yn gyffredinol nad ydoedd cyn y cyfnod clo, a’u bod yn ymgysylltu’n dda â dysgu yn yr ysgol, ond maent yn ymgysylltu’n llai pan fydd rhaid iddynt weithio o gartref. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn teimlo bod disgyblion a oedd wedi dangos agweddau gwael at ddysgu yn y gorffennol wedi sylweddoli’r manteision a gânt o fynychu’r ysgol. Adroddir gan ychydig o arweinwyr bod disgyblion iau yn arddangos llai o aeddfedrwydd nag y byddent o dan amgylchiadau arferol. Yn ogystal, dywedant fod disgyblion yn mynd yn llai medrus yn gymdeithasol o ganlyniad i gadw pellter cymdeithasol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cael llai o gyfleoedd i wneud ymarfer corff.

Ers mis Medi, mae bron pob ysgol wedi rhoi blaenoriaeth i les disgyblion, gan adeiladu ar eu gwaith i gefnogi lles o ddechrau’r cyfnod clo, yn ogystal â’u harferion arferol. Mae’r rhan fwyaf wedi cwblhau archwiliadau o les disgyblion er mwyn nodi’r disgyblion hynny y mae angen cymorth arnynt. Mae hyn wedi galluogi ysgolion i ddarparu cymorth teilwredig i’r disgyblion hyn. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi addasu’u darpariaeth addysg bersonol, cymdeithasol ac addysg iechyd i ymateb i’r materion a grëwyd gan y pandemig. Er enghraifft, mae ysgolion wedi cyflwyno cyfleoedd i gerdded a sgwrsio gan gadw pellter cymdeithasol yn yr

awyr agored, wedi rhoi ffocws gwasanaethau rhithwir ar faterion lles ac wedi cyflwyno gwers benodol ar les i’r diwrnod ysgol.

Cred llawer o rieni a ymatebodd i’r arolwg fod yr ysgol yn gofalu’n dda am les eu plentyn. O ddechrau’r tymor, mae llawer o’r rhieni hyn o’r farn fod staff yr ysgol wedi cynorthwyo’u plentyn i ymgartrefu ’nôl yn yr ysgol yn dda. Cred y mwyafrif fod yr ysgol yn gwneud trefniadau priodol i’w plant drafod eu teimladau, eu hiechyd a’u lles, neu bryderon.

Pan ddychwelodd disgyblion gyntaf ym mis Medi, mae llawer o ysgolion yn adrodd bod presenoldeb yn gadarnhaol, er ei fod yn aml yn is nag y byddent yn ei ddisgwyl fel arfer, ac eithrio oherwydd bod disgyblion yn hunanynysu neu’n disgwyl canlyniadau prawf. Ledled Cymru, ceir cryn amrywio o ran faint o amser ysgol y mae disgyblion wedi’i golli yn sgil gorfod hunanynysu ers mis Medi. Mae rhai ysgolion wedi gweld nifer uchel o achosion o COVID-19, gyda nifer o grwpiau blwyddyn a niferoedd uchel o staff yn gorfod hunanynysu. Mewn ychydig o achosion, mae grwpiau blwyddyn wedi gorfod hunanynysu fwy nag unwaith, a thrwy hynny maent wedi colli dros hanner yr hanner tymor cyntaf. Nid yw ysgolion eraill wedi gweld unrhyw darfu o’r math hwn ers mis Medi.

Mae llawer o ysgolion yn pryderu’n arbennig ynglŷn â disgyblion presennol Blwyddyn 11 sy’n pryderu am yr ansicrwydd ynghylch arholiadau. Yn ogystal, mae ychydig o ysgolion yn nodi bod gan eu disgyblion du ac o gefndiroedd ethnig lleiafrifol bryderon ynglŷn ag iechyd a lles teuluol oherwydd effaith y pandemig ar eu cymuned nhw.

### Lles staff

Mae bron pob arweinydd yn teimlo bod y pandemig wedi cryfhau’r ymdeimlad o gymuned yn eu hysgol a bod gwaith tîm y staff a’u parodrwydd i addasu wedi bod yn gryfderau arbennig. Mae llawer o athrawon a staff cymorth yn teimlo bod arweinwyr ysgol wedi darparu cymorth digonol iddynt i alluogi dychwelyd yn llwyddiannus i’r ysgol. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn bryderus iawn ynghylch lles eu staff. Yn ychwanegol at eu pryderon ynglŷn â’r feirws, mae staff yn gorfod addasu’n gyson i ffyrdd newydd o weithio. Er enghraifft, mae staff yn gorfod glanhau ardaloedd o ystafelloedd dosbarth rhwng dosbarthiadau neu pan fyddant yn symud, ac nid ydynt yn gallu rhyngweithio â disgyblion na chydweithwyr yn eu ffordd arferol. Maent hefyd yn gorfod darparu gwersi ar-lein yn ogystal ag addysgu wyneb yn wyneb. Mae arweinwyr yn nodi pryder arbennig ynghylch lles staff pan fydd rhaid iddynt symud o ddosbarth i ddosbarth er mwyn i ddisgyblion aros yn yr un ystafell ddosbarth drwy’r dydd. Mae llawer o athrawon yn nodi eu bod yn gweld ymdopi â chynllunio dysgu wyneb yn wyneb ochr yn ochr â dysgu o bell yn arbennig o heriol. Dywedant fod hyn yn cael effaith negyddol ar eu lles.

Mae bron pob ysgol wedi darparu cefnogaeth ar gyfer lles staff. Mae hyn wedi cynnwys galwadau ffôn rheolaidd, cynnig o gwnsela neu gymorth iechyd galwedigaethol a rhaglenni lles penodol. Lle mae materion iechyd penodol gan staff, mae ysgolion wedi cwblhau asesiadau risg unigol i’w galluogi i ddychwelyd yn ddiogel i’r ysgol. Mae llawer o ysgolion wedi cynnal arolygon staff i fesur eu lles a’u barnau ynglŷn â gwaith yr ysgol, ac maent wedi addasu’u darpariaeth yn unol â hynny.

### Lles penaethiaid ac uwch arweinwyr

Mae nifer o ffactorau wedi effeithio'n negyddol ar les penaethiaid ac uwch arweinwyr. Mae'r sefyllfa o fod dan bwysau aruthrol ers mis Mawrth a rheoli gorbryder staff, disgyblion a rhieni wedi bod yn heriol. Mae penaethiaid yn mynegi rhwystredigaeth o orfod adweithio i ganllawiau ar fyr rybudd a pheidio â chael rhybudd ymlaen llaw am unrhyw newidiadau, sy'n golygu gorfod delio ag ymatebion gan rieni a staff cyn iddynt allu prosesu'r wybodaeth eu hunain. Ers mis Mawrth, ychydig iawn o seibiant neu amser gwyliau y mae'r rhan fwyaf o benaethiaid a llawer o uwch arweinwyr wedi'i gael. Yn ychwanegol at eu cyfrifoldebau arferol, o fis Mawrth hyd at yr haf, treuliwyd llawer iawn o amser arweinwyr yn cadw i fyny â newidiadau mynych i ganllawiau a'u rhoi ar waith, cadw i fyny â negeseuon e-bost a diweddariadau ynglŷn â'r pandemig, cyfathrebu â staff, rhieni a disgyblion a pharatoi ar gyfer y cyfnod 'dal i fyny' cyn gwyliau'r haf. Hefyd, roedd llawer o arweinwyr yn gyfrifol am gynnal hybiau. Gweithiodd arweinwyr yn ystod gwyliau'r haf er mwyn paratoi ar gyfer mis Medi a delio ag ôl-effeithiau'r sefyllfa ynglŷn ag arholiadau.

Ers dychwelyd ym Medi, mae arweinwyr wedi gweld bod llawer o'u hamser yn cael ei dreulio ar reoli a goruchwylio systemau newydd fel amserau cinio niferus, systemau unffordd a gwisgo masgiau. Mae ysgolion sydd wedi cael achosion o COVID-19 yn sôn am y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â rheoli'r prosesau cysylltiedig a'r angen i fod 'ar alwad' gyda'r nos ac ar benwythnosau. Mae'r amser sy'n cael ei dreulio ar weithgareddau'n gysylltiedig â COVID-19 wedi lleihau'r amser sydd ar gael i arweinwyr gynllunio'n strategol a rhoi sylw i'w gwaith arferol.

Adroddir gan y rhan fwyaf o benaethiaid fod cyd benaethiaid wedi bod yn ffynhonnell gefnogaeth bwysig. Gwerthfawrogwyd hyn yn arbennig gan benaethiaid a ymgymerodd â'u swyddi yn ystod y pandemig neu'n union cyn y pandemig. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae penaethiaid wedi cyfarfod yn gyson trwy gydol y pandemig i rannu profiadau a syniadau ac i gydweithio.

## Hyrwyddo dysgu

### Dysgu o bell

Yn ystod camau cynnar y cyfnod clo, adweithiodd ysgolion yn gyflym i ddarparu dysgu o bell i ddisgyblion. Roedd hyn yn cynnwys adnoddau digidol ar-lein neu gopïau papur. Roedd yr ysgolion a oedd eisoes wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn dysgu ar-lein yn gallu darparu deunyddiau dysgu o bell digidol o'r cychwyn cyntaf. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn teimlo bod ansawdd darpariaeth ar-lein wedi gwella dros gyfnod wrth i athrawon fagu mwy o hyder yn gyflym wrth ddefnyddio meddalwedd ar-lein.

**Cameo**

**Ysgol Gyfun Gwent Is Coed**

Fel rhan o'i dull dysgu o bell, darparodd yr ysgol lyfryn digidol cynhwysfawr i ddisgyblion a rhieni a oedd yn cynnwys ystod o gyfleoedd dysgu. Roedd hwn yn cynnwys fideos byr i egluro cysyniadau allweddol yn Gymraeg, ac atebion i gwestiynau cyffredin i gynorthwyo rhieni a disgyblion.

Dechreuodd llawer o ysgolion uwchradd trwy ddarparu gwaith i ddisgyblion yn unol â'r amserlen ysgol lawn.  Fodd bynnag, awgrymodd adborth gan athrawon, disgyblion a rhieni fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweld y lefel waith hon yn anodd ymgysylltu â hi o gartref.  O ganlyniad, aeth y rhan fwyaf o ysgolion ati i leihau eu darpariaeth i ddarparu ystod o ddysgu â mwy o ffocws gan amcanu at gynnal cwricwlwm eang a chytbwys.

**Dysgu o fis Medi**

Mae arweinwyr wedi cynllunio ar gyfer ystod o sefyllfaoedd, er enghraifft pan fydd rhaid i ddisgyblion unigol, staff neu grwpiau eraill hunanynysu, neu gyfnodau eraill o darfu fel 'cyfnodau clo byr' cenedlaethol neu leol.

Mae llawer o ysgolion yn defnyddio adnoddau dysgu ar-lein i dreialu a datblygu dulliau addysgu i baratoi ar gyfer unrhyw darfu pellach.  Er enghraifft, mae ysgolion wedi peilota dull dysgu o bell yn y dosbarth er mwyn ymarfer sut i ddefnyddio'r llwyfan digidol yn effeithiol wrth ofyn ac ateb cwestiynau drwy gyfleusterau sgwrsio ar-lein.  Mae ychydig o ysgolion yn cynnig gweithdai i gynorthwyo rhieni i wella'u hyder wrth ddefnyddio TGCh.

**Cameo**

**Ysgol Bassaleg**

Mae'r ysgol wedi cynhyrchu canllaw ymarferol i ddysgu cyfunol ar gyfer rhieni a disgyblion.  Mae'r canllaw yn egluro pa fathau o brofiadau dysgu y gellir eu darparu gan athrawon os oes angen i ddisgyblion weithio o gartref, er enghraifft tiwtorialau fideo wedi'u rhag-recordio, gweminarau byw a thasgau dysgu annibynnol gan ddefnyddio llwyfan digidol.  Mae dolenni fideo wedi'u cynnwys yn y ddogfen i alluogi disgyblion a rhieni weld enghraifft o sut beth allai'r mathau hyn o wersi fod.  Yn ogystal, mae'r canllaw'n cynnwys gwybodaeth a dolenni at fideos sy'n egluro sut i ddefnyddio llwyfan digidol yr ysgol.  Amlinellir y 'pethau i'w gwneud a pheidio â'u gwneud' mewn dysgu ar-lein i sicrhau bod disgyblion a rhieni yn deall y disgwyliadau o ran ymddygiad wrth gymryd rhan mewn gwers ar-lein.

Mae nifer o heriau sy'n codi o'r canllawiau ar sut i ymateb i COVID-19.  Bu'n rhaid i arweinwyr addasu'u dulliau mewn amrywiaeth o ffyrdd.  Yn benodol, mae cadw pellter cymdeithasol yn gwneud addysgu wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth yn fwy heriol.  Er enghraifft, o dan y cyfyngiadau presennol, ceir anawsterau wrth drefnu gwaith grŵp neu waith mewn parau, a symud o amgylch yr ystafell ddosbarth i fonitro a hyrwyddo cynnydd disgyblion.  O ganlyniad, mae mwyafrif o ysgolion yn annog dulliau eraill i wirio dealltwriaeth disgyblion, fel cwisiau sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, defnyddio byrddau gwyn bach a delweddwyr.  Mae marcio gwaith disgyblion yn creu nifer o heriau iechyd a diogelwch.  I ymateb i hyn, mae lleiafrif o ysgolion yn mynnu bod disgyblion yn cyflwyno gwaith ar-lein yn unig.  Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae athrawon yn darparu adborth i ddisgyblion trwy glipiau sain neu fideo.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dioddef tarfu ers iddynt ddychwelyd ym mis Medi.  Mewn ychydig o achosion, bu enghreifftiau o lefelau tarfu eithriadol o uchel.  Yn y rhan fwyaf o achosion, lle mae'n ofynnol i grwpiau o ddisgyblion ynysu, mae ysgolion

yn darparu dysgu o bell. Mae llawer o ysgolion yn dechrau datblygu'r defnydd o wersi wedi'u rhag-recordio ochr yn ochr â thasgau dysgu o bell. Mae mwyafrif o ysgolion yn dechrau datblygu'u dull o ffrydio gwersi'n fyw. Hyd yn ddiweddar, mae arweinwyr yn teimlo bod y canllawiau'n ymwneud â diogelu ar gyfer ffrydio'n fyw wedi bod yn aneglur, ac yn anghyson yn aml. Yn ogystal, maent yn adrodd am nifer o anawsterau gyda'r dull hwn sy'n cynnwys diffyg offer TGCh gartref, signal Wi-Fi o ansawdd gwael, anawsterau gyda mewngofnodi i rwydwaith yr ysgol a disgyblion yn methu bod yno ar gyfer y sesiynau hyn. Fodd bynnag, lle mae ysgolion wedi defnyddio'r fethodoleg hon, mae arweinwyr yn teimlo ei bod wedi cynyddu ymgysylltiad disgyblion â dysgu.

## Dysgu cyfunol

Cyfuniad cynlluniedig o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell sy'n ategu'i gilydd yw dysgu cyfunol. Mae'r sefyllfa bresennol yn golygu bod pobl naill ai gartref neu yn yr ysgol, felly nid yw eu darpariaeth yn gyffredinol yn cynnwys dull dysgu cyfunol. Byddai dull dysgu cyfunol yn golygu cynllun bwriadol, cydlynus i ddysgu disgyblion gynnwys cyfuniad o ddysgu yn yr ysgol a gartref, ac nid yw hyn yn digwydd yn y rhan fwyaf o ysgolion ar hyn o bryd. Mae ysgolion yn dechrau archwilio sut gallant ymgorffori elfennau o ddysgu cyfunol yn eu darpariaeth.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Cantonian**

I gefnogi dysgu o bell a dysgu cyfunol, mae'r ysgol wedi datblygu llyfrynnau ar gyfer pob pwnc. Mae'r rhain yn crynhoi gwaith a nodweddion/cysyniadau allweddol o bob pwnc. Ar hyn o bryd, mewn gwersi wyneb yn wyneb, mae athrawon yn defnyddio'r llyfrynnau hyn ac yn modelu sut gellir eu defnyddio pan fydd angen i ddisgyblion ddysgu o gartref. Bwriad y dull hwn yw helpu disgyblion i fod yn hyderus ynghylch sut gallant barhau i fynd at ddeunyddiau dysgu os ydynt allan o'r ysgol am gyfnod o amser, a sut bydd yr athro yn rhyngweithio â nhw'n ddigidol.

Mae'r ysgol yn treialu dulliau gwahanol o ddysgu o bell yn rheolaidd i ddarparu strategaethau dysgu gwerthfawr i staff a disgyblion pe bai angen ynysu. Maent yn rhoi'r rhain ar brawf pan fydd disgyblion yn yr ysgol fel bod modd eu rhoi ar waith yn gyflym pe bai cyfnodau pan na fydd disgyblion yn yr ysgol. Er enghraifft, ceisiodd treial diweddar achub y blaen ar senario o sut beth allai dysgu fod pe bai athro'n gorfod hunanynysu ond bod disgyblion yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn dechrau gofyn i ddisgyblion ymgysylltu â gweithgareddau gartref sy'n eu paratoi nhw ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb.

## Ymgysylltiad disgyblion

Mae'r holl arweinwyr yn adrodd mai amrywiol oedd ymgysylltiad â dysgu yn ystod y cyfnod clo. Yn benodol, fe wnaethant nodi mai disgyblion presennol Blwyddyn 11 wnaeth ymgysylltu leiaf â dysgu o bell.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn pryderu bod diffyg medrau TGCh sylfaenol gan ddisgyblion wrth ddefnyddio gliniaduron neu gyfrifiaduron personol. Cafodd lleiafrif o ddisgyblion anhawster mewngofnodi i Hwb neu gyflwyno gwaith ar-lein. Roedd y diffyg hwn yn rhwystr rhag dysgu yn ystod y cyfnod hwn. Ers dychwelyd, mae ysgolion yn canolbwyntio'n drwm ar ddatblygu medrau TGCh disgyblion er mwyn eu paratoi ar gyfer cyfnodau pan all fod rhaid iddynt ddysgu o gartref. Mae llawer o ddisgyblion a thua hanner eu rhieni yn teimlo bod ysgolion yn eu paratoi'n dda i ymgysylltu â dysgu ar-lein.

Oherwydd bod disgyblion ym Mlwyddyn 11 wedi colli paratoi ar gyfer eu harholiadau haf yn 2020, mae arweinwyr ysgolion â chweched dosbarth yn teimlo nad yw'r medrau astudio sylfaenol gan ddisgyblion Blwyddyn 12 a fyddai'n cael eu datblygu fel arfer fel rhan o'u gwaith paratoi ar gyfer arholiadau.

**Sicrhau a monitro ansawdd**

Yn ystod y cyfnod clo, bu'r rhan fwyaf o ysgolion yn monitro ymgysylltiad â dysgu o bell drwy ystyried faint o ddisgyblion oedd yn mewngofnodi neu'n lawrlwytho gwaith. Fodd bynnag, nid oedd y dull hwn yn rhoi darlun cywir i ysgolion o ymgysylltiad â dysgu gan yr oedd disgyblion yn gallu mewngofnodi i systemau neu lawrlwytho gweithgareddau heb gymryd rhan mewn unrhyw waith o angenrheidrwydd. I ymateb i hynny, dechreuodd fwyafrif o ysgolion olrhain y gwaith a oedd yn cael ei gyflwyno er mwyn gwella eu prosesau monitro. Gwnaeth lawer o ysgolion ddefnydd o arolygon disgyblion a rhieni i ofyn am adborth ac addasu'u darpariaeth yng ngholau hyn. Adroddodd ychydig o ysgolion eu bod wedi datblygu dulliau o fonitro ansawdd gwaith a osodwyd. Er enghraifft, aeth arweinwyr mewn un ysgol ati i wirio ansawdd adnoddau a ddarparwyd gan adrannau gwahanol a nodi meysydd lle'r oedd lefel yr her yn annigonol.

Ers mis Medi, mae arweinwyr a staff wedi gorfod parhau i ymateb i'r pandemig, ac mae hyn yn lleihau'n sylweddol yr amser sydd ganddynt i feddwl a chynllunio'n strategol. O ganlyniad i hyn a mesurau iechyd a diogelwch, mae mwyafrif o ysgolion wedi lleihau eu gweithgareddau monitro a gwerthuso.

**Cameo**

**Ysgol Cil-y-Coed**

Mae arweinwyr yn yr ysgol wedi rhannu canllaw defnyddiol ar gyfer staff sy'n amlinellu disgwyliadau clir ar gyfer addysgu yn yr ysgol a phan ei bod yn ofynnol i grwpiau ynysu neu os oes unrhyw gyfnodau clo yn y dyfodol. Mae'r pennaeth wedi darparu cyfleoedd i staff dreialu'r dulliau hyn a thrwy gynnal ymatebion ymarfer i senarios. O ganlyniad, mae'r pennaeth yn teimlo bod bron yr holl staff wedi'u paratoi'n dda ar gyfer unrhyw addasiadau a allai fod yn ofynnol yn y dyfodol.

Er mwyn parhau â'u ffocws ar wella addysgu, mae arweinwyr wedi datblygu gwefan i rannu arfer effeithiol. Mae arweinwyr addysgu a dysgu yn adolygu ac yn sicrhau ansawdd y gwaith hwn ac yn gyffredinol, mae staff yn ymateb yn gadarnhaol i'r dull hwn. Mae'r ysgol wedi oedi arsylwadau o wersi ac wedi rhoi trefn o fonitro gwaith disgyblion yn fwy mynych ar waith.

**Trefniadau gweithredol, gan gynnwys iechyd a diogelwch**

Mae bron pob ysgol wedi rhoi dosbarthiadau cyfnod allweddol 3 mewn swigod dosbarth, band neu flwyddyn. Mewn llawer o ysgolion, mae'r disgyblion hyn yn aros yn yr un ystafell ddosbarth ac mae athrawon yn symud rhwng gwersi. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae disgyblion yn symud rhwng gwersi ac mae ystafelloedd dosbarth yn cael eu glanhau rhwng gwersi.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth wedi'u gosod mewn swigod blwyddyn, ac maent yn symud o amgylch yr ysgol er mwyn iddynt allu mynd i ystafelloedd dosbarth arbenigol.

Mae arweinwyr ym mhob ysgol yn adrodd eu bod wedi cymryd camau i gyfyngu ar gyswllt rhwng grwpiau dosbarth neu flwyddyn. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- creu systemau unffordd mewn coridorau
- neilltuo ardaloedd dynodedig o safle'r ysgol i grwpiau blwyddyn penodol
- cynyddu nifer y lleoedd a ddefnyddir i weini bwyd
- cyflwyno amserau dechrau a gorffen am yn ail i'r diwrnod ysgol
- cyflwyno amserau cinio ac egwyliau am yn ail

Mae llawer o ysgolion yn nodi bod y trefniadau hyn wedi arwain at awyrgylch tawel a threfnus ac wedi gwella ymddygiad disgyblion yn gyffredinol.

Mae llawer o ysgolion wedi cadw eu strwythur amserlen arferol. Mae lleiafrif o ysgolion wedi cynyddu hyd gwersi er mwyn lleihau symud o amgylch yr ysgol. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr ysgol wedi darparu canllawiau a hyfforddiant penodol i'w staff addysgu ar sut i hyrwyddo dysgu i'r eithaf yn ystod gwersi hwy.

Cafodd y rhan fwyaf o ysgolion gymorth defnyddiol gan eu hawdurdod lleol neu gonsortiwm rhanbarthol i gynhyrchu asesiadau risg cyffredinol a phenodol. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg unigol ar gyfer disgyblion a staff, lle bo angen. Er enghraifft, fe wnaeth un ysgol gwblhau asesiadau risg personol ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol, fel nam ar eu golwg a diabetes. Mae ysgolion wedi datblygu canllawiau ac asesiadau risg i alluogi pynciau ymarferol i fynd rhagddynt yn ddiogel.

Mae ysgolion yn adrodd bod ychydig o ysgolion yn gweld gweithio o fewn y cyfnod COVID-19 yn heriol, yn enwedig wrth ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gwblhau gwaith ymarferol. Mae ysgolion wedi cyflogi staff glanhau ychwanegol i sicrhau hylendid offer rhwng gwersi, yn enwedig mewn dylunio a thechnoleg, gwyddoniaeth, celf, cerddoriaeth ac addysg gorfforol.

Lle mae drama'n cael ei gynnig, mae'r ddarpariaeth wedi'i haddasu mewn ychydig o ysgolion i ganolbwyntio ar theori, gweithio ar berfformiadau distaw a gwisgo masgiau wrth gwblhau tasgau ymarferol. Mae rhai ysgolion yn caniatáu i ddisgyblion fynychu'r ysgol gan wisgo cit ymarfer corff er mwyn osgoi cael disgyblion yn ymgynnull mewn ystafelloedd newid bach heb eu hawyru. Mae ysgolion eraill wedi addasu'u cynlluniau gwaith i gynnwys chwaraeon unigol, athletau a chwaraeon digyswllt fel rygbi tag a chriced. Mewn ychydig o ysgolion, mae adrannau wedi addasu'u cynlluniau gwaith i oresgyn anawsterau ymarferol fel methu defnyddio ystafelloedd arbenigol.

**Cameo**

**Ysgol Gyfun Aberaeron**

Mae'r ysgol wedi annog pynciau i addasu'u rhaglenni dysgu yn ystod cyfnod COVID-19 i liniaru anawsterau ymarferol. Er enghraifft, mae'r adran dylunio a thechnoleg wedi cyflwyno gwau i'r cwricwlwm gan nad yw disgyblion cyfnod allweddol 3 yn symud o amgylch adeilad yr ysgol i fynychu gwersi mewn ystafelloedd arbenigol. Maent hefyd wedi defnyddio Teams i alluogi disgyblion i ddylunio yn ddigidol adref ac yna defnyddio technegau argraffu sychdarthiant a brodwaith digidol i gynhyrchu eitemau yn yr ysgol. Mewn gwersi celf, mae athrawon yn defnyddio darnau mawr o bapur sgrap i amddiffyn desgiau. Mewn cerddoriaeth, mae disgyblion yn defnyddio cymwysiadau digidol i recordio'u hunain yn canu ac yn chwarae offerynnau gartref. Caiff y recordiadau fideo hyn eu gwylio yn y dosbarth lle maent yn gwerthuso gwaith ei gilydd.

Lle mae dosbarthiadau'r chweched yn gweithio gyda darparwyr eraill i gynnig darpariaeth ôl-16, mae gwersi byw wedi'u cynnig ar-lein i leihau cyswllt a lleihau teithio.

**Cynllunio ar gyfer cynnydd**

Mae bron yr holl ysgolion wedi defnyddio'u trefniadau olrhain a monitro ymgysylltiad disgyblion yn ystod y cyfnod clo i nodi grŵp o ddisgyblion nad oedd wedi ymgysylltu'n dda â'r gwaith. Mae ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth hon i dargedu'u cymorth i helpu'r disgyblion hyn gydag unrhyw faterion lles fel eu bod yn ailintegreiddio ym mywyd yr ysgol ac yn ymgysylltu â dysgu o'r newydd. Lle mae ysgolion yn wynebu anawsterau wrth sicrhau bod y disgyblion hyn yn dychwelyd i'r ysgol, mae awdurdodau lleol wedi darparu cymorth gwerthfawr yn y maes hwn. Dywedodd bron yr holl benaethiaid eu bod yn cynllunio asesiadau rheolaidd o gynnydd disgyblion, yn enwedig ym Mlwyddyn 11.

Nododd y rhan fwyaf o ysgolion fod medrau llythrennedd disgyblion wedi dirywio yn ystod y cyfnod clo. Yn benodol, mae medrau ysgrifennu a siarad disgyblion yn wannach nawr nag oeddent cyn mis Mawrth. Mae bron yr holl ysgolion yn targedu datblygu'r medrau hyn mewn gwersi ac yn cynllunio rhaglen o ymyriadau llythrennedd a rhifedd ar gyfer y disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Cynlluniodd llawer o ysgolion ystod o weithgareddau pontio ar-lein i gefnogi'u disgyblion i symud ymlaen at y cyfnod dysgu nesaf. Mae llawer o arweinwyr yn teimlo bod y cychwyn gwasgarog i'r tymor wedi cael effaith fuddiol ac wedi arwain at ddisgyblion Blwyddyn 7 yn ymgartrefu'n dda yn eu hysgol newydd. Mewn ychydig o ysgolion, fodd bynnag, mae arweinwyr yn teimlo bod y diffyg pontio ffurfiol wedi effeithio'n niweidiol ar ddisgyblion Blwyddyn 7.

**Dysgu carlam (Grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau)**

At ei gilydd, mae llawer o ysgolion wedi derbyn gwybodaeth am raglen Llywodraeth Cymru 'Recriwtio, Adfer, a Chodi Safonau: y rhaglen dysgu carlam', gan eu

hawdurdod lleol a chonsortiwm rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'r cymorth a gynigiwyd i ysgolion i'w helpu i gynllunio sut i ddefnyddio a monitro'r grant yn amrywio ledled Cymru.

Mae ysgolion wedi mabwysiadu amrywiaeth eang o ddulliau wrth gynllunio sut i ddefnyddio'r grant. Defnyddir y cyllid hwn gan lawer o ysgolion i gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae lleiafrif o ysgolion wedi penodi athrawon ychwanegol ar gyfer Saesneg, mathemateg a Chymraeg er mwyn lleihau maint dosbarthiadau ac i alluogi mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu staff i grwpiau targed. Mae ychydig iawn o ysgolion yn darparu cymorth targedig i ddatblygu cymhwysedd digidol disgyblion unigol. Mae llawer o ysgolion yn targedu cymorth ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11, yn enwedig mewn pynciau craidd.

Mae ychydig o ysgolion yn cynllunio darpariaeth amgen ar gyfer disgyblion sydd wedi'i gweld hi'n anodd ymgysylltu â dysgu o'r newydd yn dilyn y cyfnod clo cychwynnol. Mae'r ysgolion hyn wedi penodi aelodau staff ychwanegol, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu ac anogwyr dysgu, i gynnig ystod o weithgareddau ochr yn ochr â'r cwricwlwm craidd. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys cynnal sesiynau cymorth lles ychwanegol a darparu sesiynau adolygu neu sesiynau dal i fyny ar ôl ysgol.

Yn gyffredinol, roedd recriwtio athrawon newydd yn heriol i arweinwyr, yn enwedig mewn ysgolion Cymraeg. Dywedodd llawer o arweinwyr bod prinder athrawon mathemateg, sydd wedi cyfyngu ar eu cyfleoedd i gynllunio a gwario'r grant hwn.

**Cameo**

**Ysgol Gyfun Gwent Is Coed**

Mae'r ysgol wedi penodi athro cymorth iaith amser llawn i weithio gyda disgyblion sydd wedi ymuno â'r ysgol trwy raglen trochi iaith. Hefyd, bydd yr athro hwn yn cynorthwyo disgyblion sy'n cael anhawster gyda chaffael iaith ar draws y cwricwlwm yn dilyn y cyfnod clo.

## Dysgu proffesiynol

Fe wnaeth y rhan fwyaf o ysgolion addasu'u cynlluniau dysgu proffesiynol yn gyflym i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau digidol ymarferwyr. Yn aml, darparwyd hyn gan staff yr ysgol ei hun a oedd ag arbenigedd yn y maes hwn. Mae llawer o arweinwyr yn teimlo bod staff yn gwella'u gallu i ddatblygu dysgu digidol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu. Mae ychydig o ysgolion wedi dewis calendr o weithdai dysgu proffesiynol rhithwir, gan recordio'r gweithdai hyn a'u cadw fel adnodd. Mae llawer o athrawon wedi gweld y gweithdai hyn a recordiwyd yn ddefnyddiol i gyfeirio'n ôl atynt wrth gynllunio dysgu ar gyfer eu disgyblion. Teimla llawer o arweinwyr mai un deilliant cadarnhaol o'r pandemig fu'r gwelliant cyflym ym medrau digidol ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif bach o athrawon yn teimlo eu bod wedi cael cymorth digonol yn y maes hwn.

Mae mwyafrif o ysgolion wedi datblygu canllawiau ymarferol defnyddiol i staff ar gyfer cyflwyno dysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell.

**Cameo**

**Ysgol Bassaleg**

Darparodd arweinwyr ganllawiau manwl i staff i rannu disgwyliadau clir a chymorth ar gyfer dysgu cyfunol. Rhoddodd hyn drosolwg i staff o'r broses cynllunio a dysgu, a gofynnwyd i staff ddilyn cylch dysgu o 'ddiben, strwythur, sgaffaldau a myfyrio' wrth gynllunio'u dulliau dysgu cyfunol. Fe wnaethant gytuno y byddai'r holl ddysgu cydamserol yn cael ei recordio. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddeunydd sy'n cael ei gyflwyno ar sgrin ac unrhyw sgyrsiau, a sylwadau a wnaed yn ystod y wers. Darparodd yr ysgol bolisi ymddygiad clir er mwyn cynorthwyo staff i reoli dysgu cydamserol a rhannwyd y disgwyliadau hyn gyda disgyblion a rhieni. Hefyd, darparwyd canllawiau i rieni a disgyblion i'w helpu i ddeall arddull yr ysgol o ran dysgu o bell.

Ategodd llawer o ysgolion eu rhaglen dysgu proffesiynol gyda sesiynau ar-lein a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Yn gyffredinol, teimlai arweinwyr bod awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi cynnig gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â dysgu o bell.

**Cymraeg**

Mae llawer o ysgolion dwyieithog neu ysgolion Cymraeg yn arbennig o bryderus bod gallu disgyblion i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi dirywio'n sylweddol. Mae nifer o ysgolion, felly, wedi canolbwyntio ar Gymraeg llafar disgyblion ers iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae cynorthwyo medrau iaith Gymraeg disgyblion wedi bod yn heriol oherwydd diffyg cyfleoedd i athrawon i ymgysylltu disgyblion â siarad a gwrando. Mewn llawer o achosion, mae arweinwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal ffocws ar ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm.

Gweithiodd pob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol ac athrawon gyda'i gilydd i ddatblygu ystod eang o adnoddau ar-lein i gefnogi datblygiad Cymraeg disgyblion mewn ysgolion Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dyma'r dolenni at yr adnoddau hyn:

Y Pair: https://hwb.gov.wales/networks/191820d6-cc3b-4e62-a0a1-0f119947350b

Y Gist: https://hwb.gov.wales/networks/a4e8b2f7-086b-4ff5-abe2-d4c9014f4554

**Cymwysterau a threfniadau asesu**

Ar adeg cynnal ein gwaith ymgysylltu, mae holl arweinwyr ysgolion uwchradd yn pryderu ynghylch yr ansicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer arholiadau yn 2021. Oherwydd yr ansicrwydd, mae ysgolion yn gorfod cynllunio ar gyfer ystod o senarios arholiadau yn ogystal â gorfod cynllunio ar gyfer ystod o senarios cyfnod clo.

Er bod pryder cyffredinol ynglŷn â'r tarfu ar addysg pob disgybl mewn grwpiau blwyddyn arholiadau, mae pryder arbennig ynghylch yr amrywio o ran tarfu o ysgol i ysgol a phwysigrwydd sicrhau nad yw disgyblion o dan anfantais. Er enghraifft, mae

rhai ysgolion wedi gweld nifer uwch o achosion o COVID-19, gyda grwpiau blwyddyn a staff yn gorfod hunanynysu, tra bod ysgolion eraill heb weld unrhyw darfu o'r math hwn ers mis Medi. Hefyd, ceir amrywiaeth o ran lefelau tarfu ar draws pynciau. Yn ystod y cyfnod clo, dewisodd disgyblion ymwneud mwy â rhai pynciau nag eraill. Mae pryderon penodol gan ysgolion ynglŷn â phynciau sy'n cynnwys elfennau ymarferol ac eglurder canllawiau ar gyfer y pynciau hyn.

Mae athrawon ac arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth asesu pe bai angen graddau wedi'u hasesu'n ganolog. O ganlyniad, mae disgyblion mewn grwpiau blwyddyn arholiadau yn gorfod cwblhau cryn nifer o asesiadau ar draws eu holl bynciau. Caiff hyn effaith ar lwyth gwaith disgyblion ac athrawon fel ei gilydd, ac mae'n lleihau amser addysgu a dysgu. Yn ogystal, mae disgyblion yn pryderu y gallai pob darn o waith y maent yn ei gwblhau ddylanwadu ar eu gradd derfynol. Maent yn ofni gwneud camgymeriadau ac yn gofyn am help. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu lles.

**Cameo**

**Ysgol Friars ac Ysgol Gyfun Trecelyn**

Wrth ddychwelyd ym mis Medi, gofynnodd arweinwyr mewn ychydig o ysgolion i adrannau ystyried yr elfennau o gyrsiau arholiad a fyddai'n fwyaf anodd i'w haddysgu neu'u cyflwyno trwy fodel dysgu cyfunol neu ddysgu o bell. Gofynnwyd iddynt hefyd ystyried sut roedd cyfyngiadau iechyd a diogelwch yn effeithio ar eu pwnc a beth fyddai'n ymarferol ac yn bosibl i'w gyflwyno mewn ysgol o dan yr amgylchiadau hynny. Roedd hyn yn ychwanegol at unrhyw addasiadau a wnaed i fanylebau arholiadau gan y byrddau arholi. Yng ngolau'r wybodaeth hon, aeth adrannau ati i ail-drefnu'u cynlluniau dysgu fel eu bod yn gwneud y defnydd mwyaf o'r amser yn yr ysgol a pharatoi adnoddau ar-lein ar gyfer testunau a fyddai'n fwy addas ar gyfer y math hwn o gyflwyno. Hefyd, fe wnaeth un ysgol baratoi dogfen i rieni a disgyblion i egluro'r newidiadau a oedd wedi'u gwneud ym mhob pwnc.

## Cefnogi dysgwyr bregus

### Hyrwyddo lles

Mae gweithdrefnau ar waith gan bron pob ysgol i nodi dysgwyr bregus. Mae'r rhain yn seiliedig ar wybodaeth gryf am anghenion disgyblion unigol a'u teuluoedd, a chydweithrediad â'r awdurdod lleol. Mae llawer o ysgolion wedi ystyried sut gallai dysgwyr sy'n bregus gael eu heffeithio gan y pandemig. Roedd hyn yn golygu cyfranogi, er enghraifft, mewn trafodaethau un i un gyda disgyblion yn ystod y cyfnod dychwelyd yn yr haf a defnyddio arolygon i ganfod mwy am bryderon rhieni. O ganlyniad, maent wedi addasu'u prosesau i nodi a chefnogi dysgwyr sy'n bregus. Mae hyn wedi cynnwys ymateb i anghenion emosiynol a lles ystod ehangach o ddisgyblion, cynyddu nifer y staff sydd ar gael i gefnogi disgyblion a chyflwyno ffyrdd mwy effeithlon o adrodd am bryderon ynghylch lles, fel defnyddio ap lles.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Eirias**

Yn ystod wythnos olaf y cyfnod dal i fyny a pharatoi yn yr haf, cynhaliodd yr ysgol arolwg i asesu effaith y cyfnod cau ysgolion ar les disgyblion. Fe wnaeth yr asesiad ystyried 10 o feini prawf, a gwerthuso materion fel ymgysylltiad disgyblion yn ystod y cyfnod hwn ac ymgysylltiad rhieni â'r ysgol. Nod yr asesiad oedd gwerthuso effaith y ddarpariaeth lles ar ddisgyblion bregus er mwyn sicrhau eu bod yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Yn ogystal, roedd yr ysgol eisiau nodi beth oedd pryderon penodol disgyblion bregus a sut gallent fynd i'r afael â'r rhain mewn ffordd dargedig.

O ganlyniad i'w gwerthuso, addasodd llawer o ysgolion eu cefnogaeth ar gyfer lles i ymateb i faterion penodol a oedd wedi codi o ganlyniad i'r cyfnod clo, fel y rhai a oedd yn effeithio ar ddisgyblion na fynychodd yr ysgol yn ystod y cyfnod dal i fyny ym mis Gorffennaf. Er enghraifft, gweithiodd ychydig o ysgolion gyda'u hawdurdodau lleol i dargedu disgyblion arbennig o fregus a chynnig gweithgareddau dysgu yn ystod gwyliau'r haf iddynt.

I gefnogi pontio disgyblion bregus, creodd llawer o ysgolion raglenni pontio pwrpasol yn targedu'r rheiny nad oedd wedi ymgysylltu â'u hysgol gynradd yn ystod y cyfnod clo. Cynigiodd llawer o ysgolion y cyfle i unigolion ymweld yn bersonol cyn i'r tymor ddechrau. Mae ychydig o ysgolion wedi creu parthau cymorth neu ardaloedd pwrpasol ar gyfer disgyblion bregus ym Mlwyddyn 7, sy'n eu cynorthwyo i deimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae ysgolion eraill wedi anfon pecynnau croeso allan i'r holl ddechreuwyr newydd, wedi sefydlu flogiau a gweithio gyda theuluoedd bregus er mwyn annog dysgu fel teulu.

**Cameo**

**Ysgol Gymunedol Llangatwg**

Yn ystod gwyliau'r haf, cynhaliodd yr ysgol raglen bontio ar gyfer disgyblion bregus ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe. Gwahoddwyd y disgyblion i mewn am un diwrnod ac fe wnaethant gwblhau gweithgareddau yn canolbwyntio ar bontio a delio â newid. Bu'r cydlynydd pontio, pennaeth blwyddyn a thiwtoriaid dosbarth yn cyfranogi hefyd. Mae'r adborth gan ddisgyblion a rhieni yn awgrymu bod y cyfle hwn wedi helpu disgyblion bregus fagu hyder o ran dechrau yn eu hysgol newydd.

## Presenoldeb

Mewn llawer o ysgolion, mae presenoldeb disgyblion bregus wedi bod yn amrywiol yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Mae arweinwyr yn nodi mai'r prif resymau am hyn yw cynnydd yn y cyfraddau heintiau a gorbryder rhieni ynghylch diogelwch plant yn yr ysgol. Mae cyfran fach o rieni wedi dewis addysgu'u plant gartref. Ceir ansicrwydd cyffredinol ynglŷn â'r modd y dylai ysgolion gofnodi presenoldeb o dan yr amgylchiadau presennol, er enghraifft pan fydd disgyblion yn hunanynysu.

Mae llawer o ysgolion yn croesawu'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth lles addysg. Mae swyddogion lles addysg (SLIA) yn gweithio gyda disgyblion a'u teuluoedd i fynd i'r afael â phryderon a gorbryderon ynglŷn â mynychu'r ysgol. Maent hefyd yn gweithio gyda thimau amlasiantaeth awdurdodau lleol i ddarparu cymorth arbenigol i'r disgyblion hynny sy'n amharod i fynychu'r ysgol neu sy'n dysgu o gartref oherwydd rhesymau iechyd. Mae timau SLIA, gan weithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol, yn darparu gwybodaeth bwysig i ysgolion am ddisgyblion bregus unigol . Mae hyn yn galluogi ysgolion i ymateb yn gyflym i'w hanghenion.

**Cameo**

**Ysgol Uwchradd Esgob Hedley**

Roedd staff yn yr ysgol yn pryderu'n arbennig ynglŷn â disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (SIY) a disgyblion o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr SIY yn yr ysgol yn gymwys yn yr iaith ond mae medrau gwannach gan rieni yn aml, felly roedd yr ysgol yn pryderu y gallai hyn arwain at heriau gyda dysgu gartref a chyfathrebu ynglŷn â disgwyliadau wrth ddychwelyd i'r ysgol. Mae gan yr ysgol gynorthwyydd cymorth dysgu sy'n siarad Pwyleg, a chysylltodd â theuluoedd sy'n agored i niwed i ddarparu cyngor a chymorth i rieni ar sut y gallent helpu'u plant. Mae'r ysgol yn cydnabod bod disgyblion o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn anodd ymgysylltu â nhw yn aml, ond mae'r pandemig wedi gwneud y sefyllfa hon hyd yn oed yn fwy heriol. Cysylltodd yr awdurdod lleol â theuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr a chynhaliodd weithgareddau ymgysylltu yn ystod gwyliau'r haf, ond mae rhieni'n amharod o hyd i anfon eu plant i'r ysgol oherwydd pryderon ynghylch diogelwch. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau i gymell y disgyblion hyn, fel cyfranogi yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin yn ogystal ag anogaeth a mentora wedi'u hariannu gan y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.

**Grwpiau o ddisgyblion bregus**

Mae bron yr holl ysgolion wedi addasu'u hymagweddau arferol at ddiogelu ac maent yn blaenoriaethu lles disgyblion sydd ar y rhestr amddiffyn plant neu'r rheiny y nodwyd eu bod dan risg. Er enghraifft, maent yn defnyddio dulliau digidol i gadw mewn cysylltiad â disgyblion os nad ydynt yn yr ysgol, ac mae staff yn cyfranogi mewn cyfarfodydd ar-lein gyda gweithwyr cymdeithasol a thimau cymorth awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth.

Er bod ysgolion wedi gweithio'n galed i gefnogi disgyblion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol trwy ddarparu dyfeisiau digidol, maent yn parhau'n bryderus ynglŷn â disgyblion nad ydynt yn ymgysylltu â dysgu o bell o hyd. Mae arweinwyr yn teimlo mai'r rheswm am hyn yw naill ai nid yw'r medrau ganddynt i fynd at yr adnoddau neu nid oes cymorth ar gael gartref i'w helpu gyda'u gwaith. Mae ysgolion yn cydnabod bod angen gwneud mwy i gefnogi'r dysgwyr hyn. Ers mis Medi, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dechrau mynd i'r afael â'r heriau hyn trwy ddarparu gwersi i ddatblygu medrau disgyblion i'w galluogi i ymgysylltu â dysgu o bell. Yn ogystal, mae llawer o ysgolion yn darparu llinellau cymorth TG a llinellau cyngor ar sut i gwblhau gwaith. Mae ychydig o ysgolion yn pryderu am ddisgyblion nad ydynt yn gallu defnyddio

cyfrifiadur yn ystod y dydd, er enghraifft am ei fod yn cael ei ddefnyddio gan riant neu frawd/chwaer.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cymryd camau i gefnogi lles disgyblion ag anghenion addysgiadol arbennig (AAA). Yn ystod y cyfnod clo, nid oedd yr hyder gan lawer o ddisgyblion ag AAA i ymgymryd â gwaith a ddarparwyd ar eu cyfer a chafodd hyn effaith ar eu cynnydd mewn dysgu. Mae'r mwyafrif o rieni plant a dderbyniodd gymorth ychwanegol, a ymatebodd i'r arolwg, o'r farn fod yr ysgol yn ystyried anghenion eu plentyn ac yn darparu adnoddau, cymorth ac arweiniad priodol iddynt.

**Cameo**

**Ysgol Bassaleg**

Ym mis Medi, ailstrwythurodd yr ysgol ei darpariaeth Canolfan Cynnydd i ddarparu parthau dysgu bach ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Mae hyn yn galluogi disgyblion ag AAA i gael mynediad diogel i gymorth arbenigol, cael seibiant, ac os oes angen, hwyluso pontio graddol i'r ysgol wrth barhau yn eu swigen. Defnyddiwyd staff cymorth i ddarparu cymorth cyson i ddisgyblion ac maent wedi cael canllawiau penodol ar sut gallant gynorthwyo disgyblion mewn ffordd ddiogel rhag COVID-19.

Mae llawer o athrawon yn sôn am y rôl bwysig sydd gan ysgolion i sefydlu rhyw fath o normalrwydd ar gyfer disgyblion bregus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion bregus wedi ymateb yn dda i arferion a disgwyliadau newydd. Dywed ysgolion bod y disgyblion hyn yn gwerthfawrogi'r strwythur y mae'r ysgol yn ei ddarparu. O ganlyniad, mae ymddygiad llawer o'r disgyblion hyn wedi gwella. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion bregus wedi gweld yr ailintegreiddio i'r ysgol yn heriol.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu cymorth parhaus i deuluoedd disgyblion bregus. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â'r cartref gan gadw pellter cymdeithasol, er mwyn cadw cysylltiad â disgyblion targedig. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cydnabod bod teuluoedd yn dioddef pwysau ariannol cynyddol oherwydd effaith y pandemig ar yr economi. Mae'r ysgolion hyn yn darparu pecynnau hylendid, talebau bwyd ac offer dysgu er mwyn helpu lleddfu pwysau ariannol. Yn ogystal, maent yn cynorthwyo teuluoedd trwy ddarparu gwisg ysgol ac offer arbenigol i alluogi pob disgybl i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Mae llawer o ysgolion yn adrodd bod eu gwaith gyda theuluoedd bregus wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae'r teuluoedd hyn yn ymgysylltu â'r ysgol.

**Cameo**

**Ysgol Gyfun Coedcae**

Sefydlodd yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus gyda'r Cyngor Tref lleol i gynorthwyo teuluoedd bregus. Amlygodd yr ysgol deuluoedd bregus, nid ar y rhestr prydau ysgol am ddim (PYDd) ond teuluoedd â phwysau ariannol cynyddol yn sgil colli swydd neu am eu bod ar y cynllun ffyrlo. Gyda grant wythnosol o £250, dosbarthodd yr ysgol becynnau hylendid i'r teuluoedd hynny i leddfu rhywfaint ar y

pwysau ariannol lle'r oedd arian yn gorfod cael ei wario'n bennaf ar hanfodion fel bwyd yn hytrach na chynnyrch hylendid. O ganlyniad, adeiladodd yr ysgol berthnasoedd cadarn gyda disgyblion a'u teuluoedd, a deliodd â materion a thrafferthion cymuned yr ysgol.

Mae gan lawer o ysgolion ddarpariaeth neu ganolfannau penodol ar gyfer disgyblion bregus, ac maent yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuenctid a darparwyr y trydydd sector. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ac ymgysylltiad yn nysgu disgyblion bregus.

**Y cwricwlwm a dysgu**

Mae ysgolion wedi addasu'u cwricwlwm a'u dulliau addysgu i ymateb i'r pandemig ac anghenion disgyblion, yn enwedig y rhai bregus. Ym mis Medi, fe wnaethant ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion drafod eu pryderon a darparu gweithgareddau ymarferol i'w helpu i ddod i arfer â dysgu yn yr amgylchedd ysgol wedi'i ad-drefnu.

**Cameo**

**Ysgol Gyfun Coed-duon**

Fe wnaeth yr ysgol werthuso a diwygio'i strategaeth dysgu o bell dair gwaith yn ystod y cyfnod clo, er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n bregus yn benodol. I ddechrau, bu'n cynnal amserlen arferol yr ysgol ond roedd hyn yn achosi gorbryder i ddisgyblion ac nid oedd yn hawdd i'w chyflwyno. Teimlai disgyblion eu bod yn cael eu gorlethu â gwaith ac roedd athrawon yn canfod hi'n anodd i ddarparu adnoddau effeithiol i gyflwyno dysgu newydd. Roedd disgyblion ag AAA a dysgwyr bregus yn ei chael hi'n anodd darllen yr holl wybodaeth ar Google Classroom, felly cyflwynodd yr ysgol fideos gwahaniaethol i egluro gwaith, ac atododd gynorthwywyr addysgu er mwyn cefnogi disgyblion gyda'u gwaith. Ni chafodd gwaith newydd ei gyflwyno am dipyn. Yn lle hynny, canolbwyntiodd yr ysgol yn bennaf ar fedrau a hyrwyddo lles. Hefyd, helpodd disgyblion i drefnu'u gwaith ac ychwanegodd dasgau lles fel mynd am dro at amserlenni disgyblion.

Wrth baratoi ar gyfer disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, darparodd llawer o ysgolion ganllawiau clir i rieni a disgyblion ynglŷn ag agweddau iechyd a diogelwch. Ar gyfer disgyblion bregus a'u rhieni, cynhyrchodd y rhan fwyaf o ysgolion wybodaeth weledol fel fideos, cyflwyniadau ar-lein a theithiau rhithwir. Darparodd ychydig o ysgolion gyfleoedd i'r disgyblion hyn a'u rhieni ymweld â'r safle i ymgyfarwyddo â chynlluniau a threfniadau newydd. Nododd arweinwyr fod hyn wedi cynorthwyo proses hwylus a mwy diogel i'r disgyblion hyn ddychwelyd i'r ysgol.

Yn gyffredin, mae disgyblion wedi ymgymryd ag asesiadau o'u medrau, er bod natur yr asesiadau hyn yn amrywio ar draws ysgolion. Gan mwyaf, mae ysgolion yn adrodd bod y bylchau mewn dysgu yn fwy yn gyffredinol ar gyfer disgyblion bregus, ac yn benodol, mae eu medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn wannach nag o'r blaen. Dywed arweinwyr ysgol bod eu gwerthusiadau yn awgrymu bod mwyafrif y disgyblion, yn enwedig dysgwyr sy'n bregus, heb ddarllen yn aml yn ystod y cyfnod hwn. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio deilliannau'r asesiadau hyn i nodi a

thargedu cymorth. Er enghraifft, mae ychydig o ysgolion wedi lleihau dewisiadau opsiynau ar gyfer niferoedd bach iawn o ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn cael mwy o amser i ganolbwyntio ar ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol.

Mae'r cyfyngiadau iechyd a diogelwch sy'n effeithio ar waith ymarferol yn rhwystr i lawer o ddisgyblion bregus sy'n mwynhau amrywiaeth o brofiadau mewn pynciau fel dylunio a thechnoleg, addysg gorfforol a gwyddoniaeth. Mae ysgolion yn adrodd bod y diffyg gweithgareddau yn gysylltiedig â chreadigrwydd a gwaith ymarferol wedi cael effaith niweidiol ar ymgysylltiad rhai dysgwyr sy'n bregus.

Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau cwricwlwm amgen yn bryder arbennig i lawer o ysgolion. Mae llawer iawn o amrywio o ran pa mor hawdd y gall y disgyblion fynd at eu darpariaeth amgen ac oddi ar y safle, ac mae hyn wedi bod yn gryn her i ysgolion o ran amserlennu. Mae arweinwyr wedi rhannu llawer o enghreifftiau o ble mae darparwyr allanol wedi asesu risg a galluogi cyrsiau i fynd yn eu blaen. Fodd bynnag, nid yw nifer fawr o gyrsiau mwy ymarferol, fel trin gwallt a harddwch, wedi gallu cael eu cynnal. Gan eu bod bellach wedi dychwelyd i'r ysgol, mae ychydig o'r disgyblion hyn, yn enwedig y rhai a oedd dan risg cael eu gwahardd yn flaenorol, yn arddangos ymddygiad heriol neu'n ymddieithrio. Mae ysgolion yn parhau i weithio gyda phartneriaid allanol a'r awdurdod lleol i sicrhau darpariaeth addas ar gyfer dysgwyr bregus. Hyd yn oed pan fo'r cyrsiau hyn yn hygyrch, mae ganddynt amserlen lai yn aml am nad yw'r darparwr yn gallu caniatáu i ddisgyblion o un ysgol gymysgu ag ysgol arall. Mae ychydig o ysgolion wedi sefydlu'u darpariaeth eu hunain, er bod hyn wedi'i gynllunio'n eisoes gan mwyaf.

**Cameo**

**Ysgol Harri Tudur**

Roedd yr ysgol eisoes wedi cynllunio i werthuso ac adolygu ei darpariaeth alwedigaethol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, ac aeth hyn rhagddo er gwaetha'r pandemig. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi creu ei darpariaeth alwedigaethol ei hun. Maent wedi cyflogi athro cymwys i oruchwylio'r ddarpariaeth a staff ag ystod o fedrau a phrofiadau. Mae'r ysgol wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol i alluogi dysgwyr o ddarparwyr eraill i gael mynediad i'r ddarpariaeth hon hefyd. Ar hyn o bryd, mae rhyw 230 o ddysgwyr yn dilyn y ddarpariaeth alwedigaethol fel rhan o'u cwricwlwm. Trwy ei chyrsiau galwedigaethol, mae'r ysgol bellach yn darparu crèche, meithrinfa a gweithdy cerbydau modur sy'n gwasanaethu'r gymuned leol.

Mewn ysgolion lle mae darpariaeth ar gael ar draws nifer o ddarparwyr, mae disgyblion wedi gorfod diwygio'u dewisiadau neu wedi gorfod derbyn opsiynau dysgu rhithwir. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer disgyblion chweched dosbarth sy'n astudio agweddau ar eu cyrsiau mewn ysgolion gwahanol. Mae hyn wedi bod yn heriol i lawer o ddisgyblion, ac yn enwedig i ddisgyblion bregus a oedd wedi dewis llwybrau penodol yn ofalus, ac efallai nad ydynt ar gael mwyach.

## Gwasanaethau arbenigol a gweithio amlasiantaeth

Ers mis Mawrth, mae ysgolion wedi derbyn ystod eang o gymorth ar gyfer dysgwyr bregus oddi wrth asiantaethau allanol. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cwnsela, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau plant a'r gwasanaeth seicoleg addysgol. Yn gyffredinol, mae llawer o benaethiaid yn teimlo bod gweithio gydag asiantaethau allanol drwy'r pandemig wedi cryfhau'r cysylltiadau hyn. Mae ysgolion yn adrodd bod ansawdd y cymorth y maent wedi'i gael gan asiantaethau allanol wedi bod yn amrywiol. Lle gellir cynnig y gwaith hwn yn rhithwir, er enghraifft trwy gyfarfodydd ar-lein, mae'r cymorth ar gyfer dysgwyr sy'n bregus wedi bod yn amserol a defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw rhai asiantaethau wedi gallu darparu'u lefel arferol o gymorth. Yn achos cymorth wyneb yn wyneb, mae hyn naill ai oherwydd diffyg gofod ffisegol sy'n cydymffurfio â mesurau COVID-19 neu'r angen i leihau'r nifer o ymweylwyr allanol ag ysgolion. Mewn achosion eraill, mae gwasanaethau wedi cael anhawster symud at ddarpariaeth ar-lein. Yn ogystal, mae ychydig o staff arbenigol wedi bod yn hunanynysu. Mae ychydig o ysgolion yn adrodd bod y diffyg cymorth arbenigol hwn wedi rhoi llwyth gwaith ychwanegol ar arweinwyr a staff, gan fod llawer o rieni'n dibynnu ar yr ysgol am gymorth. Fodd bynnag, mae hyn wedi gwella ers mis Medi ac mae llawer o ysgolion yn adrodd, gyda mân addasiadau, er enghraifft adleoli gwasanaeth penodol i ran wahanol o'r ysgol a threfniadau glanhau manylach ac uwchraddio asesiadau risg, bod bron yr holl wasanaethau arbenigol yn dechrau ailgydio yn eu gwaith.

Mae llawer o ysgolion wedi adrodd bod galw cynyddol am gymorth a gwasanaethau iechyd meddwl. O ganlyniad, mae rhestrau aros yn hir ac mae'r ysgolion hyn yn fwyfwy pryderus nad yw disgyblion a fyddai fel arfer yn gymwys i dderbyn cymorth, yn methu manteisio ar y gwasanaethau. Mewn ychydig o achosion, darperir cyrsiau defnyddiol a gwybodaeth werthfawr i staff i'w rhannu gyda rhieni a disgyblion er mwyn pontio'r bwlch a chefnogi disgyblion bregus. Mae gwasanaethau iechyd cyffredinol yn brysur iawn, ac o ganlyniad mae rhestrau aros yn hir.

Yn gyffredinol, ers ailagor, mae ysgolion wedi adrodd am gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer cwnsela. O ganlyniad, mae ychydig o awdurdodau lleol wedi cynyddu'r capasiti cwnsela o fewn yr awdurdod, ac mae un awdurdod lleol wedi dyrannu cwnselydd ychwanegol i bob ysgol. Mae llawer o ysgolion yn cynnig ymyriadau yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd ar y rhestr aros, ac maent wedi bod yn hyblyg o ran eu hymagwedd at gwnsela, gyda dewis o ddarpariaeth wyneb yn wyneb a darpariaeth ar-lein.

**Cameo**

**Ysgol Gyfun Radur**

Er mwyn cynorthwyo disgyblion ag angen cwnsela arnynt, cyn egwyl yr haf, postiodd yr ysgol ffonau symudol at ddisgyblion a nodwyd drwy'r gwasanaeth cwnsela. Hefyd, rhoddwyd ffonau symudol i staff a ddefnyddiodd y rhain i ffonio disgyblion bregus ddwywaith yr wythnos. Fe wnaeth hyn helpu meithrin perthnasoedd, nodi materion, a galluogi staff i gefnogi'r disgyblion hyn pan ddychwelon nhw i'r ysgol ym mis Medi.

Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, mae cymorth i ysgolion i fynd i'r afael ag ymddygiad heriol yn broblemus oherwydd, yn ôl ei natur, mae'n mynnu amser cyfarfod wyneb yn wyneb rhwng yr arbenigwr a'r disgybl. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dweud bod ymddygiad ychydig o ddisgyblion sy'n bregus wedi bod yn fwy heriol wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Mae ysgolion yn pryderu, gan nad eir i'r afael â'r materion ymddygiad hyn, y gallai'r disgyblion barhau i ymddieithrio.

Mae cymorth gan wasanaeth yr heddlu yn galluogi ysgolion i nodi a chefnogi disgyblion sydd wedi bod yn dyst i gam-drin domestig a digwyddiadau eraill yn y cartref. O ganlyniad, mae staff yn gallu cyfeirio'r gwasanaethau a chymorth priodol at y disgybl a'i deulu.

Mae bron yr holl ysgolion wedi gwerthfawrogi cymorth gan weithwyr ieuenctid. Maent wedi cynorthwyo disgyblion a theuluoedd yn ystod y cyfnod clo trwy ddosbarthu bwyd, cynnal cyfarfodydd ar-lein gyda theuluoedd ac ymweld â disgyblion i'w cynorthwyo gyda'u dysgu. Mae eu cymorth wedi bod yn barhaus trwy gydol y cyfnod clo a'r cyfnod ailagor. Ers mis Medi, maent wedi parhau i gynnig cymorth, yn enwedig i'r disgyblion hynny nad ydynt yn ôl yn yr ysgol.

Mae llawer o ysgolion yn adrodd bod awdurdodau lleol wedi darparu cymorth gweithredol defnyddiol i ysgolion i sicrhau lles disgyblion bregus. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn gweithio'n effeithiol fel cyfrwng rhwng adrannau'r cyngor, asiantaethau allanol ac ysgolion. Maent yn rhannu gwybodaeth bwysig gydag ysgolion a theuluoedd ac yn darparu cyngor a gwybodaeth am ffynonellau help arbenigol. Er enghraifft, maent yn darparu gwybodaeth am ddiogelu, gwybodaeth am wasanaethau cwnsela ac yn cyfeirio at gymorth ac arweiniad ar iechyd emosiynol a lles. Mae ysgolion yn dweud y bu cymorth yr awdurdod lleol yn fwyaf effeithiol pan fo'r cyfathrebu yn glir a llwybrau at gymorth yn syml. Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol, mae'r panel dysgwyr bregus yn fforwm effeithlon ac effeithiol i gyfeirio disgyblion a theuluoedd at ystod o asiantaethau i'w helpu pan fydd y cymorth gan yr ysgol wedi'i ddisbyddu.

### Prosesau statudol ac atgyfeiriadau

Ar y cyfan, fe wnaeth ysgolion elwa o weithio gydag ysgolion eraill a swyddogion awdurdod lleol i rannu adnoddau, trafod materion a datrys problemau er mwyn bodloni dyletswyddau statudol. O ganlyniad, teimlai ysgolion eu bod yn gallu bodloni anghenion disgyblion bregus yn well, a bod staff yn fwy hyderus o ran y cymorth y gallent ei ddarparu.

Mae bron pob ysgol yn adrodd bod trefniadau i barhau â phrosesau asesu statudol ar gyfer datganiadau o anghenion addysgol arbennig wedi parhau ers mis Mawrth. Fodd bynnag, byddai ychydig iawn o ysgolion wedi gwerthfawrogi mwy o gymorth, yn enwedig lle maent wedi derbyn ceisiadau newydd am asesiadau statudol. Arweiniodd hyn at lwyth gwaith ychwanegol i staff ysgolion gan y bu'n rhaid iddynt ddelio â chynnydd mewn galwadau ffôn heriol gan rieni yn gofyn am gymorth ychwanegol. Mae ysgolion wedi parhau i gynnal adolygiadau blynyddol, gan wneud addasiadau, lle bo angen. Er enghraifft, er mwyn cydymffurfio â chyfyngiadau COVID-19, fe wnaeth rhai ysgolion neilltuo ardaloedd neu swyddfeydd penodol er mwyn cynnal adolygiadau blynyddol. Symudodd ysgolion eraill yr adolygiadau ar-

lein, neu roedd ganddynt ymagwedd gyfunol ar gyfer teuluoedd a gwasanaethau arbenigol, gyda chymysgedd o ddarpariaeth wyneb yn wyneb a darpariaeth ar-lein. Yn yr ychydig iawn o achosion lle nad yw adolygiadau blynyddol wedi'u cwblhau, mae hyn naill ai oherwydd dewis y rhieni neu ddiffyg cymorth arbenigol.

Adroddodd ychydig o ysgolion y bu'n anodd cynnal rhaglen lawn o ymyriadau a nodwyd mewn cynlluniau addysg unigol ers dychwelyd ym mis Medi. Mae hyn oherwydd bod staff cymorth wedi cael eu hailgyfeirio i sicrhau bod disgyblion yn ymgyfarwyddo ag arferion newydd sydd eu hangen i gydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch, ac ymgysylltu â'r cwricwlwm. Erbyn hyn, mae ysgolion yn dechrau cynyddu lefel y cymorth drwy ymyriadau yn yr ysgol, ond mae'n heriol trefnu darpariaeth mewn perthynas â thargedau blaenorol neu dargedau newydd. Er enghraifft, mae darparu cyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion sydd ag awtistiaeth/anghenion cymdeithasol yn heriol i ysgolion wrth barhau i gydymffurfio â chanllawiau COVID-19.

**Cameo**

**Ysgol Gyfun Penweddig**

Aeth yr ysgol ati i adolygu'r cymorth a nodwyd yn yr holl ddatganiadau a Chynlluniau Addysg Unigol, a phennu graddfa Coch Melyn Gwyrdd i bob gweithgarwch yn ôl p'un a fyddai wedi bod yn bosibl parhau â'r cymorth o bell. Dosbarthwyd y rhan fwyaf o agweddau ar raddfa Gwyrdd, a darparwyd y cymorth hwn ar gyfer disgyblion wedyn. Er enghraifft, trefnodd cynorthwywyr addysgu gyfarfodydd ar-lein neu ffonio disgyblion ag AAA yn wythnosol o leiaf i'w cynorthwyo ag agweddau ar eu gwaith. Lle nad oedd modd darparu'r cymorth o bell, trafodwyd atebion posibl gyda rhieni'r disgybl a chytunwyd ar fodd i ddatrys hynny. Ar ôl ailagor ym mis Medi, cafodd cynlluniau cymorth eu hadolygu eto, pennwyd graddfeydd Coch Melyn Gwyrdd iddynt, a cheisiwyd atebion. Er enghraifft, nid oedd modd cynnal ymweliadau y tu allan i'r ysgol i gynorthwyo â datblygu medrau bywyd oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch, ond mae staff ychwanegol a gyflogwyd gan yr ysgol yn gweithio gyda'r disgyblion hyn nawr i greu profiadau tebyg yn fewnol.

Mae ychydig o ysgolion yn teimlo bod y cyfnod clo wedi rhoi'r cyfle iddynt oedi, myfyrio a hyfforddi staff ar agweddau ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru]. Fodd bynnag, er bod paratoadau eisoes wedi'u cychwyn cyn y cyfnod clo, mae llawer o ysgolion yn dweud bod eu gallu i gynllunio ar gyfer gweithredu'r Ddeddf wedi arafu. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd y llwyth gwaith gweithredol digynsail sydd wedi'i achosi gan y pandemig.

At ei gilydd, mae atgyfeiriadau o ysgolion at wasanaethau plant ac iechyd, er enghraifft, wedi cynyddu. Mae atgyfeiriadau at dimau arbenigol awdurdodau lleol wedi cynyddu hefyd. Mae hyn wedi arwain at nifer gynyddol o ddisgyblion nad ydynt yn gallu cael asesiad na chymorth arbenigol.

**Dysgu proffesiynol**

Mae llawer o ysgolion yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer staff allweddol sy'n cynorthwyo dysgwyr bregus. Y fath o hyfforddiant sydd fwyaf cyffredin yw ar agweddau fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a delio â gorbryder disgyblion. Yn fewnol, mae ysgolion yn rhannu arfer dda ar fodloni anghenion disgyblion bregus, er enghraifft trwy ddarpariaeth ymwybyddiaeth ofalgar. Mae cynorthwywyr addysgu yn elwa o amser a roddir i ddilyn cyrsiau ar-lein ar destunau sy'n gysylltiedig â'u gwaith, er enghraifft, ar ddelio â disgyblion pryderus a hyfforddiant ar therapïau penodol. Mae llawer o ysgolion yn manteisio ar y cynnig dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar les gan yr awdurdod lleol a chonsortiwm rhanbarthol, ac mae ychydig o ysgolion yn cael hyfforddiant drwy wasanaethau arbenigol fel 'Mind' a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

---

Mae dysgwyr sydd i'w hystyried yn y grŵp bregus yn cynnwys y rhai sydd heb ymgysylltu â dysgu o gwbl yn ystod tymor yr haf, ond yn benodol y dysgwyr hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, gan gynnwys:

- dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA)
- dysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
- dysgwyr y mae Saesneg neu Gymraeg yn iaith ychwanegol iddynt neu ddysgwyr â lefelau llythrennedd isel, neu ddysgwyr o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr neu o gefndir ethnig lleiafrifol
- dysgwyr sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol
- dysgwyr sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, dysgwyr â statws derbyn gofal, gofalwyr ifanc, dysgwyr sy'n troseddu